OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1326

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 5, Arbedion, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2017

**Arbedion yn ystod y cyfnod trosiannol**

**6.**—(1) Yn ystod y cyfnod trosiannol, bydd cofrestriad darparwr DSG o dan Ddeddf 2000 yn parhau ac, er gwaethaf unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2000 a wneir gan Ran 1 o Atodlen 3 i'r Ddeddf a fyddai fel arall yn eithrio cais y darparwr, bydd darpariaethau Rhan 2 yn parhau i fod yn gymwys i—

(a) darparwr DSG,

(b) Gweinidogion Cymru,

(c) y Tribiwnlys Haen Gyntaf,

(d) Llys Ynadon,

fel pe na bai'r diwygiadau canlyniadol hynny wedi cael eu gwneud.

(2) Mae adran 16 o Ddeddf Dehongli 1978(**1**) (arbedion cyffredinol) yn gymwys mewn cysylltiad â datgymhwyso'r darpariaethau yn Neddf 2000 i sefydliadau neu asiantaethau perthnasol fel y byddai pe bai Rhan 2 o Ddeddf 2000 wedi ei diddymu.

(3) Pan fo cofrestriad darparwr DSG yn ddarostyngedig i amodau yn union cyn y prif ddiwrnod penodedig, bydd yr amodau hynny yn gymwys i'r cofrestriad yn ystod y cyfnod trosiannol.

(4) Darpariaethau Rhan 2 yw—

(a) adrannau 14, 14A, 15, 17(4) i (6), 18, 19(3) i (6), 20A, 20B, 21, 22B, 23(1), 23(4), 24, 24A, 25(2), 26, 28, 29, 30, 30A, 31, 32, 36, 37 o Ddeddf 2000;

(b) unrhyw un neu ragor o'r rheoliadau a ganlyn sy'n gymwys i'r sefydliad neu'r asiantaeth y mae cofrestriad y darparwr DSG wedi ei gynnal mewn cysylltiad ag ef neu â hi—

(i) Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**2**),

(ii) Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(**3**),

(iii) Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(**4**),

(iv) Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003(**5**),

(v) Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004(**6**),

(vi) rheoliad 9(1) a rheoliad 12 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015(**7**),

(**1**) 1978 p. 30.
(**2**) O.S. 2002/324 (Cy. 37).
(**3**) O.S. 2002/327 (Cy. 40).
(**4**) O.S. 2002/919 (Cy. 107).
(**5**) O.S. 2003/781 (Cy. 92).
(**6**) O.S .2004/219 (Cy. 23).
(**7**) O.S. 2015/1988 (Cy. 298).

(vii) Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Hysbysu) (Cymru) 2011(**8**);

(c) unrhyw un neu ragor o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a wneir yn unol ag adran 23(1) o Ddeddf 2000 sy'n gymwys i'r sefydliad neu'r asiantaeth o dan sylw.

(5) Mae cyfeiriad at y rheoliadau ym mharagraff (4)(b) yn gyfeiriad at y rheoliadau fel y'u diwygiwyd yn union cyn y prif ddiwrnod penodedig(**9**).

(**8**) O.S. 2011/105 (Cy. 24).

(**9**) Mae Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 wedi eu diwygio gan O.S. 2003/947 (Cy. 128), O.S. 2003/1004 (Cy. 144), O.S. 2004/1314 (Cy. 159), O.S. 2006/3251 (Cy. 295) ac O.S. 2011/1016 (Cy. 153). Mae Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 wedi eu diwygio gan O.S. 2006/3251 (Cy. 295), O.S. 2007/311 (Cy. 28) ac O.S. 2017/51 (Cy. 22). Mae Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004 wedi eu diwygio gan O.S. 2006/3251 (Cy. 295) ac O.S. 2013/225 (Cy. 22).